The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah – EN010166

# Uniper UK Limited

# Cyngor Adran 51 ynglŷn â dogfennau cais drafft

## Cyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2025

Ar 13 Ionawr 2025, cyflwynodd Uniper UK Limited (‘yr ymgeisydd’) y dogfennau drafft a restrir yn y tablau isod i’w hadolygu gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn rhan o’i Gwasanaeth Cyn-ymgeisio.

Mae’r cyngor a gofnodir yn y tablau isod yn ymwneud yn unig â materion a godwyd o adolygiad yr Arolygiaeth Gynllunio o’r dogfennau cais drafft. Mae’r cyngor wedi’i gyfyngu gan aeddfedrwydd y dogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a’r amser a oedd ar gael i’w hystyried, ac fe’i rhoddir heb ragfarnu’r penderfyniad ynglŷn â derbyn, y penderfyniad ynglŷn â derbyn ar gyfer y Weithdrefn Garlam (lle y bo’n berthnasol) na’r penderfyniad terfynol ynglŷn â ph’un a ddylid rhoi cydsyniad datblygu. Mae’r ymgeisydd wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar gofnod cyngor drafft yr Arolygiaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi.

| Cyffredinol | |
|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **1.** | Ysgrifennwyd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009. Gan fod ymgynghoriad statudol wedi dechrau ar ôl 30 Ebrill 2024, dylai'r ymgeisydd ystyried p'un a yw Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) 2024 yn berthnasol yn lle hynny. |

| Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) drafft a Memorandwm Esboniadol (EM) drafft | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Erthygl / Atodlen / Gofyniad** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **1.** | **Amrywiol** | Mae'r term "effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd neu sylweddol wahanol…" yn cael ei ddefnyddio'n anghyson. Ar gyfer Erthygl 2, Erthygl 6(2) a Gofyniad 17(2), fe'i defnyddir fel yr uchod. Fodd bynnag, yn Atodlen 2 Rhan 1 (dehongliadau), defnyddir y term "effeithiau amgylcheddol **arwyddocaol** sylweddol newydd neu sylweddol wahanol…" (pwyslais yr Arolygiaeth). Mae'n debygol y bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) eisiau esboniad o'r gwahaniaeth o ran defnydd ac mae'n debygol iawn y bydd eisiau diffinio beth yw ystyr "arwyddocaol" yn y cyd-destun hwn. Dylai'r term fod yn gyson yn y DCO drwyddo draw. Dylai'r ymgeisydd ystyried p'un ai defnyddio "sylweddol newydd neu sylweddol waeth…" yn lle hynny, gan fod hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r ymgeisydd wneud diwygiadau yn ogystal â darparu rhywbeth "gwahanol" sy'n gwella'r cynllun. |
| **2.** | **Erthygl 8(3)(d)** | Mae'r pŵer yn caniatáu i'r ymgymerwr drosglwyddo budd y Gorchymyn heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol lle mae'r trosglwyddai "yn gwmni cofrestredig sy'n aelod o Grŵp Uniper". Nid yw'r EM yn esbonio'r angen am y pŵer penodol hwn ac, os caiff ei dderbyn i'w Archwilio, mae'n debygol y bydd yr ExA eisiau archwilio pwy yw'r cwmnïau eraill hyn a ph'un a ydynt yn ddeiliaid priodol a chyfreithlon y Gorchymyn hwn. Mae'r Arolygiaeth yn argymell bod hyn yn cael ei esbonio yn yr EM neu ei ddileu. |

| Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) drafft a Memorandwm Esboniadol (EM) drafft | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Erthygl / Atodlen / Gofyniad** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **3.** | **Amrywiol** | Mae Erthyglau 16(1), (3) a (5) ac Erthygl 17(5) yn defnyddio’r geiriau “cau dros dro” yn gysylltiedig â strydoedd ac ati. Dylai’r ymgeisydd ystyried p’un a fyddai’n fwy priodol diwygio hyn i ‘gau’ / ‘cyfyngu’ dros dro ac, os felly i ba ddefnyddwyr. |
| **4.** | **Erthygl 36(8)** | Mae’r pŵer hwn yn atal yr ymgymerwr rhag caffael unrhyw ran o’r tir a amlygwyd ar gyfer meddiant dros dro yn orfodol “ac eithrio nid yw’r ymgymerwr yn cael ei atal rhag caffael hawliau newydd dros unrhyw ran o’r tir o dan Erthygl 28”. Nid yw’r EM yn esbonio’r angen am y geiriad ychwanegol hwn na’r rhesymeg drosto, ac os caiff ei dderbyn i’w Archwilio, mae’n bosibl y bydd unrhyw ExA eisiau archwilio p’un a yw’r Ymgeisydd yn ceisio caniatáu pwerau i’w hun gaffael tir a amlygwyd ar gyfer meddiant dros dro yn orfodol, a pham. Gallai’r geiriad presennol arwain at ansicrwydd a dryswch i’r rhai y mae pwerau o’r fath yn effeithio arnynt. Dylai’r Erthygl atal tir pwerau meddiant dros dro rhag cael ei gaffael. Os oes tir a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer hawliau newydd o dan Erthygl 28, dylai’r rhain gael eu hamlygu’n benodol a’u heithrio. Bydd angen esboniad yn yr EM wedyn. |
| **5.** | **Atodlen 1** | Nid yw Gwaith Rhif 2(a) yn dangos hyd y biblinell nwy pwysedd uchel arfaethedig. |
| **6.** | **Gofyniad 22(2)(c)** | Ni ddylai unrhyw Orchymyn osod na chyfarwyddo terfynau amser ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Dylid dileu’r term “28 niwrnod” a’i ddisodli â “cyn gynted ag y bo’n ymarferol bosibl/cyn gynted ag y bo’n ymarferol”. |
| **7.** | **Atodlen 11** | Dylai’r EM esbonio’n fanylach statws darpariaethau amddiffynnol a lle y ceir anghydfodau â’r ymgymerwr statudol a enwyd. Os caiff ei dderbyn i’w Archwilio, mae’n debygol y bydd yr ExA yn ceisio adroddiad cynnar ar gynnydd ac esboniadau ynghylch pam nad yw darpariaethau amddiffynnol wedi’u cwblhau. Os bydd anghydfodau, mae’n debygol y bydd yr ExA yn gofyn am dystiolaeth o achosion lle y defnyddiwyd (neu na ddefnyddiwyd) y geiriad sy’n destun anghydfod mewn Gorchmynion eraill ac esboniad ynghylch pam, os yw’n berthnasol, mae darpariaethau amddiffynnol yn gwyro oddi wrth y Gorchmynion hynny a wnaed. |

| Datganiad o’r Rhesymau (SoR) drafft | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Paragraff / Adran** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **1.** | **Dewisiadau Amgen** | Dim ond y dewis amgen ‘Gwneud Dim Byd’ a drafodir gan gyfeirio at NPS EN-1. Trafodir yr holl ddewisiadau amgen eraill yn y Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 2, Pennod 6: Dewisiadau Amgen y Prosiect – na chyflwynwyd fel Dogfen Ddrafft i’w hadolygu. |

| Adroddiad Ymgynghori drafft, gan gynnwys rhestr ymgyngoreion adran 42 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Paragraff / Adran** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **1.** | **Cyffredinol** | Roedd yr Adroddiad Ymgynghori drafft yn anghyflawn ac, fel y cyfryw, nid oedd gan yr Arolygiaeth unrhyw arsylwadau manwl i’w gwneud ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Fodd bynnag, rhoddir rhywfaint o gyngor generig isod (gweler y tudalennau cyngor cyhoeddedig am ragor o wybodaeth). |
| **2.** | **Cydymffurfio â Gofynion Ymgynghori Statudol** | • Sicrhewch fod cydymffurfedd ag Adrannau 42 (dyletswydd i ymgynghori), 47 (dyletswydd i ymgynghori â’r gymuned leol), a 48 (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd) yn cael ei ddangos yn llawn.<br>• Amlinellwch yn glir sut mae gweithgareddau ymgynghori’n cyd-fynd â Deddf Cynllunio 2008 a chanllawiau cysylltiedig. |

| Adroddiad Ymgynghori drafft, gan gynnwys rhestr ymgyngoreion adran 42 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Paragraff / Adran** | **Sylw neu gwestiwn** |
| 3. | **Digonolrwydd Deunyddiau a Dulliau Ymgynghori** | • Darparwch fwy o fanylion am sut y paratowyd deunyddiau ymgynghori, sut y sicrhawyd eu bod ar gael, a sut y'u haddaswyd ar gyfer hygyrchedd.<br>• Dylech asesu effeithiolrwydd dulliau ymgynghori ac unrhyw addasiadau a wnaed i wella ymgysylltiad. |
| 4. | **Tystiolaeth o Ymgynghori a'r Ymatebion a Gafwyd** | • Sicrhewch fod cofnod clir o ymatebion ymgynghori, wedi'u categoreiddio yn ôl ymgyngoreion statudol, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, a'r cyhoedd.<br>• Dylech gryfhau'r esboniad o sut yr ystyriwyd adborth a sut y dylanwadodd ar ddatblygu'r prosiect.<br>• Dangoswch fod adborth ymgynghori wedi cael ei ystyried.<br>• Ymhelaethwch ar sut y dadansoddwyd ac y crynhowyd ymatebion, gan sicrhau llwybr archwilio clir.<br>• Rhowch enghreifftiau penodol o newidiadau a wnaed i'r prosiect i ymateb i adborth ymgynghori neu gyfiawnhad lle na wnaed unrhyw newidiadau. |
| 5. | **Eglurder a Strwythur yr Adroddiad** | • Dylech wella'r strwythur i sicrhau eglurder a rhwyddineb cyfeirio, gan groesgyfeirio i dystiolaeth ategol.<br>• Dylech gynnwys crynodeb gweithredol cryf sy'n amlygu themâu allweddol, adborth a gafwyd, ac addasiadau a wnaed i'r prosiect. |
| 6. | **Ymgysylltiad Parhaus** | • Dylech amlinellu'n glir unrhyw weithgareddau ymgynghori neu ymgysylltu ychwanegol a gynlluniwyd cyn cyflwyno'r cais.<br>• Sicrhewch fod yr adroddiad yn dangos proses ymgynghori a gwblhawyd yn llawn, gan fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n weddill cyn cyflwyno. |

| Cynllun Tir enghreifftiol drafft | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Enw a Chyfeirnod y Cynllun** | **Sylw neu gwestiwn** |
| **1.** | **Cyffredinol** | Roedd y Cynllun Tir drafft yn anghyflawn ac ni chyflwynwyd unrhyw gynlluniau eraill i'w hadolygu. Fel y cyfryw, nid oedd gan yr Arolygiaeth unrhyw arsylwadau manwl i'w gwneud ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Fodd bynnag, rhoddir rhywfaint o gyngor generig ynglŷn â chynlluniau isod (gweler y tudalennau cyngor cyhoeddedig am ragor o wybodaeth) i helpu i gwblhau'r dogfennau'n derfynol cyn cyflwyno'r cais. |
| **2.** | **Cydymffurfio â Gofynion Statudol** | • Sicrhewch fod yr holl gynlluniau'n cydymffurfio â deddfwriaeth a'u bod o ansawdd uchel ac yn ddarllenadwy fel y gellir eu dehongli'n rhwydd gan randdeiliaid.<br>• Sicrhewch gysondeb â'r Llyfr Cyfeirio a dogfennau cais eraill (fel y dDCO a'r Datganiad o'r Rhesymau). |
| **3.** | **Cywirdeb ac Eglurder Mapio** | • Dylai cynlluniau sylfaenol ddefnyddio mapiau cyfredol yr Arolwg Ordnans wrth raddfa briodol (1:2500 mewn ardaloedd gwledig ac 1:1250 mewn ardaloedd trefol, yn nodweddiadol).<br>• Defnyddiwch esboniad ac allwedd safonedig i wahaniaethu gwahanol gategorïau tir (e.e., caffael gorfodol, meddiant dros dro, hawliau). |